NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Heintiau safle triniaethau llawfeddygol: atal a thrin

11 Ebrill 2019

## *Atal heintiau safle triniaethau llawfeddygol*

Mae nifer o fân organebau, gan gynnwys bacteria a feirysau, yn byw ar ein croen, yn ein cyrff ac o'n cwmpas heb achosi unrhyw niwed i ni. Pan fyddwch yn cael llawdriniaeth, gall rhai o'r organebau hyn fynd i mewn i'r toriad a wneir gan y llawfeddyg ac achosi haint. Gelwir hyn yn haint safle triniaeth lawfeddygol (neu haint clwyf llawfeddygol). Ni fydd y rhan fwyaf o heintiau safle triniaethau'n ddifrifol, ond gall rhai fod yn fwy difrifol os byddant yn effeithio ar y meinweoedd dyfnach o dan y croen. Gall gael haint safle triniaeth olygu y bydd angen aros yn yr ysbyty am fwy o amser er mwyn gwella, ond gellir gwneud pethau cyn, yn ystod ac ar ôl eich llawdriniaeth a all eich helpu i osgoi heintiau.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn helpu i atal heintiau safle triniaethau drwy sicrhau y bydd eich tîm gofal yn gwneud y canlynol:

- cymryd y rhagofalon priodol ar bob cam er mwyn lleihau'r risg o haint, er enghraifft eich paratoi ar gyfer llawdriniaeth a rhwymo a glanhau eich clwyf
- gwybod pryd a sut i ddefnyddio diheintyddion a gwrthfiotigau i leihau'r risg o haint, a dweud wrthych yn ddiweddarach os rhoddwyd gwrthfiotigau i chi yn ystod y llawdriniaeth
- rhoi cyngor i chi ar ymolchi cyn y llawdriniaeth a dangos i chi sut i ofalu am eich clwyf yn gywir pan fyddwch yn mynd adref.

## *Gweithio gyda'ch gilydd*

Dylai eich tîm gofal roi gwybodaeth glir i chi am y risg o gael haint safle triniaeth ac esbonio'r broses ofalu y byddant yn ei dilyn er mwyn lleihau'r risg honno. Dylent ateb eich cwestiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylent hefyd wneud y canlynol:


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- rhoi cyngor ymarferol i chi, megis pryd y gallwch gael cawod ar ôl eich llawdriniaeth
- esbonio sut i adnabod arwyddion o haint pan fyddwch yn mynd adref
- gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod â phwy y dylech gysylltu os byddwch yn poeni am eich clwyf
- dweud wrthych beth fydd yn digwydd os byddwch yn cael haint

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am gael llawdriniaeth ar wefan y GIG. Mae taflen i gleifion, 'monitoring surgical wounds for infection' ar gael gan Public Health England.

Gall y sefydliad isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- MRSA Action UK

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y wefan hon.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae haint safle triniaeth wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3395-2


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.